

## **CYLCH GORCHWYL CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF**

### **Cyflwyniad**

#### **1. Darpariaethau Statudol**

- a) Mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i sefydlu yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Adran 58 - Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu);
  - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013; a,
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Rhan 4, Pennod 1, Adran 35 - Pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol)
- b) Bydd gwaith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r trefniadau ar gyfer craffu ar y cyd yn destun darpariaethau deddfwriaethol yn unol â'r uchod, ac unrhyw reoliadau neu gyfarwyddyd sydd wedi'u gwneud yn unol â'r ddeddfwriaeth. Bydd gofynion y ddeddfwriaeth yn cael eu blaenoriaethu yn achos unrhyw wrthdaro rhwng y Ddeddf a/neu'r Rheoliadau ac unrhyw drefniadau ar y cyd.

#### **2. Enw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

- a) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r ddau Awdurdod sy'n ffurfio'r pwyllgor.
- b) Teitl y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu rhwng y ddau Awdurdod fydd "Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf".

#### **3. Diben y Cydbwyllgor Craffu**

- a) Nod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw craffu ar effeithiolrwydd cyffredinol Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (y Bwrdd).
- b) Mae swyddogaethau craidd statudol y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cynnwys:
- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd neu'r camau y mae'r Bwrdd yn eu cymryd;
  - Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
  - Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu'i drefniadau llywodraethu;
  - Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atyn nhw ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a
  - Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- c) Yn ogystal â'r swyddogaethau uchod, mae modd i Lwybrau Holi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i), y canlynol:
- Effeithiolrwydd yr Asesiad Llesiant;
  - Effeithiolrwydd y Cynllun Llesiant;
  - Effeithiolrwydd trefniadau mesur cyflawniad;
  - Lefel yr ymrwymiad gan bartneriaid unigol o ran gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
  - Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cyfathrebu ei waith, amcanion a deilliannau i'w randdeiliaid; ac
  - Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r mater o gyfuno cyllid er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau
- d) Mae cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, yn rhan o bartneriaeth, ac yn eithrio craffu ar waith sefydliadau partner unigol (gweler paragraff 5).
- e) Mae deddfwriaeth gyfredol yn eithrio unrhyw fater arall o raglenni gwaith yr holl bwyllgorau craffu, is-bwyllgorau a Chydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill y mae modd i'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn yr Awdurdod (adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006) ei drafod.

#### **4. Deilliannau arfaethedig y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

- a) Sicrhau bod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflawni'r buddion canlynol: -
- **Darparu her effeithiol** i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau a ddymunir.
  - **Canolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer y bobl, nid sefydliadau:** newid y persbectif o fewnbwn i sicrhau canlyniadau;
  - **Sicrhau bod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gweithredu fel corff sy'n dod ag eraill ynghyd:** gan helpu partneriaid i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth dinasyddion ar draws gwahanol ffiniau gwleidyddol, sefydliadol a daearyddol;
  - **Atebolrwydd:** egluro sut mae sefydliadau gwahanol yn cyfrannu at gyflawniad;
  - **Effeithlonrwydd:** manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael;
  - **Arloesi:** nodi datrysiadau a safbwyntiau newydd.

#### **5. Fframwaith Atebolrwydd**

- a) Mae'r paramedrau ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y'u diffinnir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol:
- Mae'r ddeddf yn caniatáu craffu ar y BGC fel 'corff corfforaethol', nid y partneriaid unigol sy'n ffurfio'r BGC. Mae paragraff 180 o ganllawiau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi; **“Gall y pwyllgor ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod statudol o'r bwrdd roi tystiolaeth, ond dim ond o ran arfer**

**swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddynt fel aelod o'r bwrdd dan y Ddeddf hon.**" Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithgaredd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O ganlyniad i hynny, bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn craffu ar waith y BGC ac nid ar weithgareddau unigol partneriaid y BGC

- {ut1Er y bydd gweithredoedd ar y cyd y BGC yn dangos yr effaith a'r deilliannau a gyflawnwyd, gall y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ddewis ymchwilio i bartneriaid unigol ynghylch sut y maen nhw'n bwriadu arfer eu dyletswydd llesiant yn unol â chynllun llesiant y BGC. Mae adran 36 (1) (c) o'r Ddeddf (wrth ddiffinio dyletswydd llesiant y BGC) yn cyfeirio at; **"bod aelodau'r bwrdd yn cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny."**
- At hynny, mae modd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu arfer ei bŵer presennol o dan A21 (2) (e) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; **"Make reports or recommendations to the authority or the executive on matters which affect the authority's area or the inhabitants of that area."**

## **6. Aelodau Etholedig sy'n rhan o'r Pwyllgor (Cynghorwyr)**

- a) Bydd pob Awdurdod penodi yn penodi'r un nifer o Aelodau Etholedig, ni all aelodau sy'n rhan o'r adain weithredol fod yn rhan o'r pwyllgor.
- b) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys 10 Aelod Etholedig; hynny yw, 5 Aelod Etholedig nad ydyn nhw'n rhan o Adain Weithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a 5 Aelod Etholedig nad ydyn nhw'n rhan o Adain Weithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- c) Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu ac yn enwebu Aelodau Etholedig ar gyfer y Pwyllgor, yn unol â'i drefniadau ei hun. Bydd cyfnod swydd yr Aelodau Etholedig sydd wedi'u henwebu yn cael ei bennu gan yr Awdurdod Lleol sy'n eu henwebu.

## **7. Cworwm**

- a) Er mwyn bwrw ymlaen â'r cyfarfod, bydd angen cworwm o draean o'r Aelodau Etholedig sy'n ffurfio'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, bydd angen i hyn gynnwys o leiaf un Aelod Etholedig o'r naill awdurdod.

## **8. Cyfnod gweithredu'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r weithdrefn ar gyfer tynnu'n ôl**

- a) a) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gweithredu hyd nes y bydd hysbysiad ysgrifenedig gan Brif Weithredwr ac Arweinydd un o'r ddau awdurdod lleol sy'n cymryd rhan wedi'i gyflwyno i Brif Weithredwr ac Arweinydd yr awdurdod arall, gan roi gwybod am y penderfyniad i dynnu'r Awdurdod hwnnw yn ôl.

## **9. Aelodau Cyfetholedig**

- a) Mae modd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gwahodd aelodau ychwanegol i wasanaethu ar y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu'r is-bwyllgor fel aelodau cyfetholedig, mae hyn yn amodol ar y canlynol:-
- bod y mwyafrif o Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cymeradwyo'r penodiad;
  - ni fydd gan y person sydd wedi'i gyfethol/chyfethol i fod yn rhan o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yr hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd ddim yn cael ei hateb yn ystod unrhyw gyfarfod;
  - ni all y person yma fod yn aelod etholedig o Awdurdod Lleol, boed hynny'n un o'r Awdurdodau Lleol sy'n penodi neu Awdurdod Lleol arall;
  - the membership of a person co-opted to serve on the JOSC being withdrawn by a majority vote at any time by the JOSC or sub-committee; and,
  - ni all nifer yr Aelodau Cyfetholedig ar y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fod yn fwy na nifer yr Aelodau Etholedig sy'n rhan o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- b) Mae modd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wahodd Aelodau Statudol y BGC (Aelodau nad ydyn nhw'n rhan o'r adain weithredol) o'r sefydliadau canlynol i fod yn Aelodau Cyfetholedig o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu :-
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
  - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
  - Cyfoeth Naturiol Cymru
- a
- c) Gall y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wahodd 'cyfranogwyr gwadd' fel y'u diffinnir yn y Ddeddf i wasanaethu fel aelodau cyfetholedig ar y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Bydd y "cyfranogwyr gwadd" yma'n cael eu gwahodd i gyfrannu yn ôl yr angen.<sup>1</sup>
- d) Gall y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu benodi dau "Aelod Cyfetholedig Annibynnol" trwy hysbyseb gyhoeddus i wasanaethu fel aelodau cyfetholedig ar y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu h.y. trigolyn o bob un o'r ddwy ardal awdurdod lleol.

## **10. Terfynu / atal aelodaeth o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

- a) Os bydd Aelod Etholedig o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n peidio â bod yn Aelod o'r awdurdod penodi, fydd y person yma ddim yn gallu parhau i fod yn aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- b) Os yw person a benodwyd yn aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i atal rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o un o'r awdurdodau penodi, ni chaiff y person hwnnw wasanaethu fel aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod y cyfnod atal.

<sup>1</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Rhan 4, Pennod 1, Paragraff 30.

- c) Os bydd aelod cyfetholedig a benodwyd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn peidio â bod yn gyflogai i'r sefydliad y cafodd ei benodi ohono, yna bydd yr unigolyn hwnnw'n peidio â bod yn aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar unwaith.
- d) Bydd penodiad pobAelod Cyfetholedig Statudol yn para uchafswm o bedair blynedd o ddyddiad y penodiad.
- e) Bydd penodiad pob Aelod Cyfetholedig Annibynnol yn para uchafswm o ddwy flynedd o ddyddiad y penodiad.
- f) Os bydd Aelod Cyfetholedig Annibynnol yn symud i ffwrdd o ardal yr awdurdod lleol y cafodd ei benodi'n rhan ohono, ni fydd y person yma'n gallu parhau i fod yn aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar unwaith.

### **11. Hawliau pleidleisio**

- a) Mae modd i bob Aelod Etholedig bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'r Cydbwyllgor yn penderfynu arno
- b) Yn achos pleidlais gytbwys yn ystod cyfarfod o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu, bydd gan y Cadeirydd y bleidlais fwrw.
- c) Nid oes gan berson sy'n Aelod Cyfetholedig o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yr hawl i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw (gweler manylion yr Aelodau Cyfetholedig uchod hefyd).

### **12. Is-bwyllgorau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

- a) Mae modd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu sefydlu is-bwyllgorau er mwyn gallu gweithredu mewn dull symlach a hyblyg i gyflawni ei swyddogaethau statudol.
- b) Bydd unrhyw is-bwyllgorau a benodir gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys o leiaf pedwar Aelod Etholedig, ynghyd ag unrhyw aelodau cyfetholedig fel y cytunwyd wrth sefydlu'r is-bwyllgor.
- c) Bydd is-bwyllgor yn cynnwys nifer cyfartal o Aelodau Etholedig o bob un o'r awdurdodau penodi.
- d) Mae unrhyw adroddiad neu argymhellion sy'n cael eu gwneud gan is-bwyllgor y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn amodol ar gymeradwyaeth y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- e) Bydd is-bwyllgor dim ond yn arfer y swyddogaethau sydd wedi'u caniatáu gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

### **13. Cydbwysedd Gwleidyddol**

- a) Rhaid i bob awdurdod penodi sicrhau bod aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, cyhyd â bod hynny'n ymarferol bosibl, yn adlewyrchu cydbwysedd grwpiau'r gwleidyddol ymhlith aelodau'r awdurdod penodi.

#### **14. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

- a) Rhaid i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu benodi Cadeirydd sydd eisoes yn rhan o Aelodaeth y Pwyllgor.
- b) Mae modd i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu benodi is-gadeirydd, rhaid i'r unigolyn yma fod yn rhan o Aelodaeth y Pwyllgor.
- c) Caiff Cadeirydd ei benodi o blith Aelodau Etholedig yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn galendr dan sylw. Bydd hyn yn digwydd ar sail bob un yn ei dro rhwng y ddau Awdurdod Lleol a bydd hawliau gweinyddol yn symud o un awdurdod i'r llall yn flynyddol.
- d) Os na fydd modd i'r Awdurdod gweinyddol gyflawni gofynion pwynt 14. (c) uchod, bydd yr Awdurdod yn datgan hyn mewn da bryd ar ddechrau Blwyddyn y Cyngor, a bydd yr hawliau gweinyddol yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod Lleol arall.

#### **15. Mynediad i gyfarfodydd a dogfennaeth ac ati.**

- a) Dylid trin y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, neu is-bwyllgor, fel pwyllgor neu is-bwyllgor o brif gyngor at ddibenion Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (1) (mynediad i gyfarfodydd a dogfennau rhai awdurdodau, pwyllgorau. ac is-bwyllgorau).

#### **16. Datrys Anghydfod**

- a) Mae dyletswydd ar bob aelod i ymddwyn mewn ffordd gadarn a rhagweithiol i ddatrys anghydfod.
- b) I ddechrau, bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn defnyddio methodoleg gydweithredol i ddatrys unrhyw wrthdaro neu anghydfod. Mae'r dull cydweithio yn cynnwys pob person yn gweithio'n agos i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi, gan feddu ar agwedd gadarnhaol sy'n canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl sy'n byw ym Mwrdeistrefi Sirol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Os oes angen, caiff dulliau eraill eu defnyddio er mwyn datrys anghydfod, megis cyfryngu. Os bydd dull cyfryngu yn cael ei ddefnyddio, rhaid i'r sawl sydd ynghlwm â'r broses gytuno ar y penderfyniad terfynol.

#### **17. Cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

- a) Caiff cyfarfodydd eu cynnal bob chwarter, caiff rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd ei dosbarthu ar ddechrau bob blwyddyn ariannol a bydd yr aelodau yn cytuno arnyn nhw. Bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol os yw 50% o'r Aelodau Etholedig yn nodi bod angen gwneud hynny.

#### **18. Rhaglen waith (Blaenraglen Waith)**

- a) Dylai'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu lunio blaenraglen waith i nodi pa faterion y mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn bwriadu canolbwyntio arnyn nhw yn ystod y flwyddyn.
- b) Bydd cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei adolygu bob blwyddyn ac yn cael ei chynnwys yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor.

- c) Dylai'r blaenraglen ddarparu rhesymeg glir ynghylch pwrpas ystyried pwnc penodol, a'r dulliau fydd yn cael eu defnyddio er mwyn ymchwilio i'r pwnc yma.
- d) Rhaid i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu roi sylw i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r canllawiau cysylltiedig, sy'n pennu gofyniad i ymgysylltu â'r cyhoedd.
- e) Caiff y blaenraglen waith ei gyhoeddi ar wefannau'r ddau Awdurdod i ganiatáu i grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb roi sylwadau a chynnig eu barn.

### **19. Gwahoddiad unigolion i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**

- a) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adolygu ac yn craffu ar gyflawniad y BGC, ac wrth arfer ei bwerau, mae hawl gan y Cydbwyllgor fynnu bod aelodau'r BGC yn mynychu cyfarfod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r BGC.
- b) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adolygu ac yn craffu ar gyflawniad y BGC, ac wrth arfer ei bwerau, mae modd i'r Pwyllgor wahodd Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet i'w gyfarfodydd pan fo hynny'n briodol.
- c) Gall y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ofyn i'r sawl sydd wedi'u gwahodd roi cyfrif am eu gweithredoedd a'u cyflawniad mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chylch gorchwyl y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn enwedig mewn perthynas ag: -
  - Unrhyw benderfyniad penodol
  - Cyflawniad partneriaid o ran cyflawni amcanion a rennir
- d) Pan fydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn dymuno gwahodd aelodau'r BGC, swyddogion, Aelodau'r Cabinet neu unigolyn arall i gyfarfod, bydd y Cydbwyllgor yn:-
  - cynnig o leiaf 6 wythnos o rybudd;
  - amlinellu'n glir y rheswm dros y gwahoddiad a'r meysydd tebygol a fydd yn codi yn ystod y broses holi;
  - Nodi a oes angen llunio unrhyw waith papur.
- e) Pan fydd unigolion yn mynychu cyfarfod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, rhaid i'r Cadeirydd sicrhau eu bod yn cael eu trin â chwarteisi a pharch. Yn dilyn y cyfarfod, caiff adborth ei ddarparu i'r sawl sydd wedi mynychu, ynghyd ag eglurhad ynghylch a oes angen gwybodaeth bellach yn rhan o'r broses Craffu.

### **20. Rheolau Mynediad at Wybodaeth**

- a) Bydd cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cydymffurfio â rheolau mynediad at wybodaeth cyfarfodydd cyhoeddus eraill y cynghorau.
- b) Bydd y Cadeirydd yn cadw at reolau mynediad at wybodaeth ei (H)Awdurdod priodol.

**21. Rheolau Gweithredu**

- a) Rhaid i Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r cyhoedd barchu'r Cadeirydd. Y Cadeirydd fydd â'r hawl i benderfynu ar unrhyw reolau gweithredu yn ystod cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- b) Bydd y Cadeirydd yn cadw at reolau gweithredu ei Awdurdod perthnasol.

**22. Datganiadau o Fuddiant**

- a) Bydd pob Aelod Etholedig yn cadw at y Cod Ymddygiad sydd mewn grym ar gyfer yr Awdurdod perthnasol, tra bydd aelodau cyfetholedig yn cadw at God Ymddygiad yr Awdurdod y mae Cadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn perthyn iddo adeg penodi'r aelod cyfetholedig.
- b) Rhaid i aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ddatgan unrhyw fuddiant yn ystod cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (a thynnu'n ôl o'r cyfarfod os oes angen) yn unol â'r paragraff uchod.

**23. Gwybodaeth gyfrinachol**

- a) Yn unol â Chod Ymddygiad ar gyfer Aelodau yr Awdurdod priodol, rhaid i aelodau (Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig) y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a ystyrir yn 'wybodaeth eithriedig' yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**24. Trefniadau gweinyddol**

- a) Bydd swyddogaeth yr ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan yr un Awdurdod â'r Cadeirydd, cyhyd a'i fod ef/hi'n cyflawni rôl y Cadeirydd. Mae hyn yn cynnwys:
  - Trefnu cyfarfodydd rheolaidd o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu - cynhelir cyfarfodydd o fewn amserlenni priodol yn dilyn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.
  - Llunio agendâu a phapurau comisiynu ar gyfer cyfarfodydd - Bydd agendâu a phapurau comisiynu yn cael eu llunio a'u dosbarthu mewn da bryd.
  - Gwahodd cyfranogwyr
  - Rheoli presenoldeb
  - Lleoliad y cyfarfodydd
  - Llunio cofnodion.
  - Paratoi tystiolaeth ar gyfer Craffu
  - Bydd y Swyddog cymorth ar gyfer y pwyllgor yn perthyn i'r un awdurdod â'r Cadeirydd. Bydd hyn yn caniatáu dull rhannu adnoddau.
- b) Bydd cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei adolygu bob blwyddyn ac yn cael ei gynnwys yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor.

**25. Gweithdrefnau Cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (gan gynnwys cyfarfodydd yr is-bwyllgorau)**

- a) Bydd prif eitemau'r agenda yn cael eu nodi yn ystod y cyfarfod blaenorol yn unol â'r rhaglen waith y cytunwyd arni. Dylid ystyried tystion posibl a themâu cyffredinol ar y pwynt yma.



- b) Cyn y cyfarfod dylai holl Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gael cyfle i holi cwestiynau drwy e-bost. Bydd Cadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn hwyluso'r broses yma.
- c) Bydd cyn-gyfarfod ar gyfer holl Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei gynnal am 30 munud yn union cyn pob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Pwrpas hyn yw sicrhau bod aelodau'n barod ar gyfer cyfarfod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a bod y strategaeth holi yn glir.
- d) Yn ystod y cyfarfod, bydd Cadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am sicrhau bod y broses holi cwestiynau yn effeithiol a bod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflawni ei nod.
- e) Ni fydd disgwyl i'r rhai sydd wedi'u gwahodd ar gyfer eitem benodol aros yn y cyfarfod am weddill y cyfarfod.
- f) Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynnir i dystion adael y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle i Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu drafod eu penderfyniadau ac unrhyw argymhellion sy'n codi o'r cyfarfod. Bydd yr holl benderfyniadau a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r BGC a'r Aelod o'r Cabinet perthnasol ar ffurf llythyr gan y Cadeirydd. Dylai'r rhan hon o'r cyfarfod adolygu effeithiolrwydd y cyfarfod a nodi ffyrdd y gellid gwella cyfarfodydd yn y dyfodol

## **26. Ymateb i argymhellion y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

- a) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cytuno ar unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn ystod ei gyfarfodydd ac yn nodi manylion y rhain yn ogystal ag unrhyw argymhellion sy'n deillio o gyfarfod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- b) Mae modd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu argymhell diwygiadau i strategaeth neu bolisi yn ei gyfarfod a bydd y rhain yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Bydd y Cadeirydd yn gwneud argymhellion yn ffurfiol trwy Lythyr y Cadeirydd a fydd yn cael ei anfon at Aelodau'r BGC ac yna'n anfon copi at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Gweinidogion Cymru, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (gweler pwynt 27 isod) yn dilyn pob cyfarfod.
- c) Pan fydd argymhellion wedi'u cyflwyno i'r BGC a/neu'r Aelod(au) o'r Cabinet, bydd disgwyl ymateb ysgrifenedig o fewn mis, gan nodi a fydd yr argymhelliad yn cael ei dderbyn a pha gamau (os o gwbl) fydd yn cael eu cymryd wrth ymateb.
- d) Pan fydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflwyno adroddiad neu argymhellion i unrhyw un o'r awdurdodau penodi neu eu swyddogion gweithredol: -
  - caiff y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gyhoeddi'r adroddiad neu'r argymhellion
  - caiff y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod neu'r awdurdodau penodi, neu'r adain weithredol neu'r swyddogion gweithredol—
    - trafod ac ymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion sy'n nodi pa gamau (os o gwbl) y mae'n bwriadu eu cymryd, neu sy'n cael eu cynnig; ac

- os yw'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cyhoeddi adroddiad neu argymhellion, rhaid cyhoeddi'r ymateb.
- Os yw'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi darparu copi o'r adroddiad neu'r argymhellion i aelod o awdurdod penodi sydd wedi cyfeirio mater at y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu'r is-bwyllgor, rhaid iddo ddarparu copi o'r ymateb i'r aelod.

## **27. Adroddiadau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

- a) Rhaid i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhelliad at y canlynol wrth lunio adroddiadau neu argymhellion ar gyfer y BGC mewn perthynas â swyddogaethau'r bwrdd neu'i drefniadau llywodraethu:-
- Gweinidogion Cymru;
  - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
  - Archwilydd Cyffredinol Cymru
- b) Bydd unrhyw adroddiadau neu argymhellion sy'n cael eu llunio'n cael eu gwneud ar ran y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ac nid ar ran yr awdurdodau lleol, ac felly nid oes unrhyw ofyniad i adain weithredol neu gyngor llawn y ddau Awdurdod gymeradwyo'r adroddiad. Fodd bynnag, byddai'n briodol rhannu copïau o adroddiadau gyda Gweithredwyr yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol a llywodraethu da.

## **28. Casglu Tystiolaeth**

- a) Mae gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r hawl i gasglu tystiolaeth mewn cysylltiad ag unrhyw adolygiad neu ymholiad y mae'r Pwyllgor yn ei gynnal yn rhan o'i gynllun gwaith y cytunwyd arno.
- b) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn mabwysiadu dulliau casglu tystiolaeth i lywio ei drafodaethau. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, grwpiau gorchwyl a gorffen, ymholiadau, cynnal ymweliadau safle, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu gwaith ymchwil, gwrandao ar dystion a phenodi ymgynghorwyr ac aseswyr. Mae'r wybodaeth sydd gan yr Aelodau hefyd yn adnodd gwerthfawr a dylid ystyried yr wybodaeth sydd ganddyn nhw yn rhan o bob ymholiad.

## **29. Gosod yr agenda**

- a) Bydd eitemau unigol yr agenda, ac eithrio eitemau sefydlog, yn cael eu pennu gan y rhaglen waith yn yr achos gyntaf. Bydd y rhaglen waith yn cael ei sefydlu a'i chymeradwyo gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Bydd y penderfyniad ynghylch trafod eitemau ychwanegol neu ohirio eitemau a gynlluniwyd yn cael ei wneud yn ôl doethineb y Cadeirydd.
- b) Bydd unrhyw fater sy'n cael ei gyfeirio at y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgor gan unrhyw aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgor yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu'r is-bwyllgor berthnasol, ac yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod hwnnw. Gweler adran "Cyfeirio materion at sylw'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac ati" isod.

## **30. Cyfeirio materion at sylw'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac ati**

- a) Gall unrhyw aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfeirio unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau at y pwyllgor.
- b) Gall unrhyw aelod o is-bwyllgor y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfeirio at y pwyllgor unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau.
  - Mae modd i unrhyw aelod o unrhyw un o'r awdurdodau penodi gyfeirio unrhyw fater sy'n ymwneud â Llywodraeth Leol ac sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu at y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- c) Bydd unrhyw atgyfeiriad mewn perthynas â phwynt a) i c) uchod yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw, a'i drafod yn ystod y cyfarfod.
- d) Pan fydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn llunio adroddiad neu'n cynnig argymhellion mewn perthynas â mater a gyfeiriwyd ato gan yr aelod hwnnw, rhaid iddo ddarparu copi o'r adroddiad neu'r argymhellion i'r aelod.

### **31. Ymgysylltu â'r Cyhoedd / Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- a) Mae modd i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r is-bwyllgorau a bydd yr holl adroddiadau ar gael i'r cyhoedd oni bai eu bod nhw wedi'u heithrio neu'n rhai cyfrinachol. Bydd yr eitemau yma'n cael eu trafod yn ystod sesiwn gaeëdig.
- b) Mae modd i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddwy ardal awdurdod lleol gyflwyno'u barn mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n cael ei drafod gan y Pwyllgor; rhaid i'r pwyllgor eu hystyried nhw.
- c) Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys casglu tystiolaeth gan y cyhoedd fel agwedd barhaus ar ei waith.
- d) Bydd modd i aelodau'r cyhoedd arsylwi yn ystod cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a bydd eitem ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd yn cael ei chynnwys ar bob agenda.
  - • Chaiff cwestiwn mo'i ofyn oni bai fod rhybudd wedi'i roi drwy'i anfon at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn ysgrifenedig neu drwy bost electronig heb fod dim hwyrach na 10 o ddiwrnodau cyn dyddiad y cyfarfod.
  - Chaiff neb gyflwyno mwy nag un cwestiwn yn ystod unrhyw gyfarfod, a dim mwy nag un cwestiwn o'r fath ar ran un mudiad/sefydliad.
  - Caniateir uchafswm o 15 munud yn y cyfarfod ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd oni chytunir yn wahanol yn y cyfarfod.
  - Rhaid i bob cwestiwn nodi enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n gofyn y cwestiwn.
  - Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr unigolyn sy'n gofyn y cwestiwn i'r cyfarfod. Os na all yr unigolyn sy'n gofyn y cwestiwn fod yn bresennol, bydd y

Cadeirydd yn gofyn y cwestiwn a bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i'r unigolyn sy'n gofyn y cwestiwn.

- Caiff holwr sy'n bresennol ac sydd wedi cyflwyno cwestiwn ofyn un cwestiwn ategol heb rybudd i'r Cynghorydd sydd wedi ateb y cwestiwn.
- e) Bydd llythyrau a phecynnau agenda'r pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau cyhoeddi agendau'r ddau Awdurdod.

### **32. Hyfforddiant a Datblygiad**

- a) Darperir hyfforddiant i aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ôl yr angen / fel y bo'n briodol.

### **33. Treuliau, Lwfansau a Chyflogau**

- a) Ni fydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am dalu cost unrhyw dreuliau neu lwfansau.
- b) Bydd cyflog ar gyfer rôl Cadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (neu Is-bwyllgor y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu) yn cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a dyletswydd yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r Pwyllgor fydd penderfynu a fydd yr unigolyn sy'n cyflawni swydd o'r fath yn derbyn cyflog.
- c) Bydd angen i bob Aelod Etholedig ac Aelod Cyfetholedig gyflwyno cais am dreuliau ac ati i'r Awdurdod neu Sefydliad perthnasol.

### **34. Lleoliad/Amser Cyfarfodydd**

- a) Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau yn y ddau Awdurdod Lleol, oni bai bod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cytuno ar drefniadau gwahanol. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y naill Awdurdod Lleol am yn ail. Oherwydd pandemig COVID-19 a [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cwrdd ar-lein hyd nes y bydd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu gan ddefnyddio dull hybrid.
- b) Bydd amser cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu unrhyw is-bwyllgorau yn cael eu cytuno gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.